Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 454 EBRILL 2023 | AM DDIM

## CANTORION OPERA CYMRU YN NHŶ TAWE

-HEINI GRUFFUDD

Noson o ganu gwefreiddiol gan dri a fydd yn canu Cosi fan tutte yn Theatr Taliesin, nos Fawrth 16 Mai. Dyma'r tro cyntaf i'r opera gael ei chanu yn Gymraeg. Gwnaed y cyfieithiad gan Iwan Teifion Davues, cyfeilydd y noson ac arwenydd y gerddorfa ym mis Mai. Y tri chantor yn Nhŷ Tawe oedd John Ieuan Jones, Erin Gwyn Rossington ac Erin Fflur.

Canon nhw amrywiaeth o ganeuon traddodiadol Cymraeg, caneuon opera a rhai o sioeau cerdd. Cafodd y gynulleidfa wledd.



## MARWOLAETH HENRY DARE

-HEINI GRUFFUDD

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Henry Dare, un o aelodu brwd a ffyddlon Côr Tŷ Tawe. Bu'n aelod ers nifer o flynyddoedd. Daeth i Abertawe o Lundain, ac roedd wrth ei fodd yn dysgu'r Gymraeg a dod yn rhan o gymdeithas Gymraeg y ddinas. Yn ffermdy Killay Fawr roedd ganddo berllan, a byddai gwin afalau Henry'n cael ei fwynhau ar wahanol achlysuron. Y tro olaf iddo ganu gyda'r côr oedd yn nathliad Gwyl Ddewi eleni. Roedd yn hoff o gymdeithasu cyn ac ar ôl y ymarferion a bydd aelodau'r côr yn ei golli'n fawr.

Roedd Henry'n un o ddisgynyddion y teulu Morris a sefydlodd Dreforys a gallu olrhain ei achau i Owain Gwynedd. Ers 2000 roedd yn rheolwr ystad y teulu Morris.

Bydd y côr bach yn canu yn nathliad ei fywyd yng Ngwesty Morgans ddiwedd y mis.



Holiadur Ar-lein

**Siaradwr Cymraeg?**

**Ydych chi'n derbyn monitro rheolaidd gan ofalwr iechyd?**

**Rydym yn awyddus i glywed am eich profiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog.**

Astudiaeth wedi'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau / adborth / sylwadau, peidiwch ag oedi i gysylltu gyda 1908235@swansea.ac.uk

**I gymryd ran defnyddiwch y ddolen/cod QR isod:**
https://qfreeaccountssjc1.az1.qualtrics.com/jfe/form/SV_0wUrW5dySTLLonl

Cymraeg

## CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH

-DAVID GWYN JOHN

Mae'r Pwyllgor Rhaglen wedi cwrdd â nifer o anawsterau wrth baratoi y rhaglen ar gyfer 2023. O'r diwedd mae'r rhaglen cyfan yn barod ac ar gael yma i ddarllenwyr "Llais."

Agorwyd y flwyddyn gyda chyflwyniad diddorol ar lafar ac ar ffilm ar hanes Capel y Baran gan Eugina Hopkin a Gareth Richards. Cawsom bleser o wrando ar y Prifardd Aneurin Karadog yn cyflwyno detholiad o'i gerddi yng nghyfarfod Chwefror ac fe ddaeth Jim Lloyd atom ym mis Mawrth. Talodd Jim ei deyrnged i'r diweddar Ann Rosser, un a oedd wedi cyd-weithio ag ef ar y gyfres "Twrio." Gyda chydweithrediad teulu Ann dangosodd Jim nifer o eitemau allan o'i chasgliad personol hi gan gynnwys hoff sampleri Ann. Trefnwyd cyfarfod Ebrill mewn cydweithrediad a Phwyllgor Gwobr Goffa Dafydd Rowlands. Dangoswyd y ffilm "Moc Hawddamor" a addaswyd gan Dafydd o un o straeon ysgafn yr awdur o Gwm Tawe, Islwyn Williams. Traddododd Catrin Heledd Richards ei beirniadaeth gan ganmol y cystadleuwyr oll. Dyfarnwyd Tlws Coffa Dafydd Rowlands eleni i Mirain Francis o Ysgol Gyfun Gŵyr. Cyflwynwyd y tlws i'r enillydd gan Mrs Margaret Rowlands, gweddw Dafydd.



Enillwyr Gwobr Goffa Dafydd Rowlands.
O'r chwith : Mirain Owen (Trydydd), Margaret Rowlands, Mirain Francis (Cyntaf), Alice Jewell (Ail), Catrin Heledd (Beirniad)
Llun: Gareth Richards.

Cafodd David Matthews o Frynhyfryd ei anrhydeddu gan Gôr Meibion Clwb rygbi Treforys trwy gael bod yn aelod oes.

Roedd David yn un o ddisgyblion cynnar Ysgol Gymraeg Lôn-las, a rhoddodd oes o gefnogaeth i bethau Cymraeg yn NhreforMae'r Gymdeithas yn cyfarfod eleni yn Festri Seion Newydd, ein cartref tros dro gan fod Festri'r Tabernacl yn cael ei hadnewyddu. Mae Seion Newydd yn agos at groesfan Dreforys (SA6 8BR). Rydym yn cyfarfod am 7.00 y.h. yn fisol ar y drydedd nos Iau o'r mis, oni nodir yn wahanol. Y tâl aelodaeth yw £10 y flwyddyn.

Dyma'r rhaglen am weddill y flwyddyn :

Mai 18 8.00. y.h. HUW CHISWELL, cyfansoddwr "Y Cwm" yn rhannu ei ganeuon gyda ni.

Mehefin 22 (4edd nos Iau) WAYNE WILLIAMS, ymgyrchydd dros yr Iaith a chyn Arolygydd Ysgolion yn rhannu ei brofiadau a Robat Powell.

Gorffennaf 20 2.30.y.p. ymlaen "Croeso'r Bont." Ymweliad â Phontarddulais.

Medi 22 Swper Cynhaeaf y Gymdeithas. Lleoliad: Clwb Golff Langland.

Hydref 19 Aelodau Cylch Darllen Cwm Tawe yn cyflwyno gwaith gan feirdd a llenorion y Cwm

Tachwedd 16 Noson yng nghwmni DELWYN SION.

Rhagfyr 14. Cinio Nadolig y Gymdeithas. Lleoliad: Clwb Golff Langland.

Beth am ymuno i fwynhau'r cyflwyniadau diddorol a'r cymdeithasu difyr? Mae croeso cynnes yn eich aros – yng ngeiriau ein diweddar ysgrifenyddes Ann Rosser:

"Os am hwyl yng nghwmni'n gilydd,
Os am sgwrs a chan o'r newydd,
O'r ardaloedd ac o'r ddinas,
Unwn oll mewn un gymdeithas"


Mae manylion llawn am y Gymdeithas ar gael oddi wrth David Gwyn John (01792 773507).

## GIGS GWYR Y STAC

-KEN THOMAS

Gigs Mis Mai
6 Neuadd Cymunedol, Bynea
13 Caffi Hybrid Arts , Castellnec
19 Theatre Llosgfynydd, Aberta

Siawns i joio a chefnogi cerddoriaeth Gymreig



EISTEDDFOD YR HENDY

Eisteddfod Gadeiriol
Dydd Sadwrn Mai 13eg 2023
NEUADD YSGOL GYNRADD YR HENDY, Pontarddulais

**Llywydd**: Mr Simon Davies, Rhydaman
(Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe)

**BEIRNIAID**
**Cerdd**: Sue Hughes A.L.C.M. Caerfyrddin
**Llefaru**: Ann Siriol Davies, Mynachlog-ddu
**Llenyddiaeth**: Bethan Mair M.A. Pontarddulais
**Arlunio**: Eifion Davies, Pontarddulais

**Cyfeilydd**: Jonathan Morgan B.Mus., L.R.A.M.

**Arweinyddion**: Jennifer Clarke, Huw Watkins, Garry Nicholas, Heledd Clarke, Steffan Griffiths.

I ddechrau am 11 o'r gloch gyda'r plant lleol.
Cystadlaethau Agored i ddechrau am 2 o'r gloch.

**MYNEDIAD**: Oedolion £4 Plant £1
Darperir lluniaeth yn ystod y dydd.



Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw gofalu am gopiau i'r Cyfeilydd a dylid gwneud yn siwr fod copi i'r Beirniad.
Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddamwain a ddigwydd yn ystod y dydd.

Diolch i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am y gefnogaeth ariannol o £500.
Diolch i Gyngor Cymuned Llanedi am ei haelioni a diolch i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru am ein cefnogi.

**GWOBR GOFFA ROY EVANS**

Gwobr flynyddol i hybu talent ifanc.
Dyn Eisteddfod, Capel a Chyngerdd oedd Roy. Bachan y Pethe.
Bu ef a'i wraig Nanna yn gysylltiedig ag Eisteddfod yr Hendy am flynyddoedd maith.
Rhoddir y wobr o £100 i'r cystadleuydd gorau ym marn y beirniaid yng **Nghystadlaethau 10 ac 11 (Adran Gerdd Agored) a 6 a 7 (Adran Lefaru Agored)**

Dymunwn gydnabod yn ddiolchgar hefyd gefnogwyr yr Eisteddfod, pob un a gyfrannodd tuag at y costau a phawb a fu'n gymorth mewn unrhyw ffordd er llwyddiant y fenter.

**Ysgrifenyddion**: Delyth Mai Nicholas, 71 Heol y Fforest, Yr Hendy, Pontarddulais SA4 0TW (01792 884036)
Meinir Jones, Yr Hendy (07801 270096)
**Trysorydd:** Meinir Morgan, Llanedi

## Ysgoloriaethau i Brifysgol Aberystwyth

-Catrin Lyall, is-bennaeth y Chweched


Llongyfarchiadau mawr i dri o flwyddyn 13 sydd wedi ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Aberyswyth yn dilyn sefyll arholiadau mynediad y brifysgol. Mae Dylan Fulford yn mynd i astudio Bioleg, Amelia Grey yn mynd i astudio Cymraeg a Sinead Jenkins yn mynd i astudio Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Pob dymuniad da i chi'ch tri!



## Gwobr Goffa Dafydd Rowlands

-Catrin Lyall, is-bennaeth y Chweched

Llongyfarchiadau mawr i Mirain Owen o fl13 am ddod yn drydydd yng Nghystadleuaeth Gwobr Dafydd Rowlands. Ysgrifennydd Mirain stori fer drawiadol a chyfres o englynion i Mr Carwyn Jenkins wrth iddo symud mlaen o Fryn Tawe yr haf diwethaf. Gwych Mirain!



## Perfformiad CYDC

-Evie Harris, Blwyddyn 12

Yn ystod gwyliau'r Pasg gwnes i a Sienna Lorey cynrychioli'r ysgol drwy ddawnsio i gwmni dawns ieuenctid y sir yn theatr Taliesin ym Mhrifysgol Abertawe. Mae ein grŵp o ddawnswyr yn amrywio o 11 oed i fyfyrwyr prifysgol sy'n cael eu dewis i gynrychioli eu hysgolion, colegau a phrifysgolion yng Ngorllewin Morgannwg. Mae ein mentoriaid yn angerddol i addysgu drwy'r celfyddydau a'r effaith mae'n ei chael ar fyfyrwyr, boed os ydym yn mynd ymlaen i weithio'n broffesiynol yn y byd dawns neu beidio. Mae fy mhrofiad o gynrychioli Ysgol Bryn Tawe ers o'n i'n 11 oed yn y cwmni wedi cael effaith gadarnhaol arnaf, yn enwedig wrth gael y profiad breintiedig o ddawnsio gyda dawnswyr a choreograffwyr proffesiynol.

Yn ystod gwyliau'r Pasg, cafodd Sienna a minnau bedwar diwrnod dwys o foreau cynnar a nosweithau hwyr ar gyfer ymarferion tan ddiwrnod ein perfformiad ar y 6ed o Ebrill. Roedd ein sioe ni am artist enwog o'r enw Frida Kahlo. Yn hanesyddol roedd hi'n fwyaf adnabyddus am ei hunan-bortreadau digyfaddawd a lliwgar a oedd yn ymdrin â themâu fel hunaniaeth, y corff dynol a marwolaeth. Yn ystod y sioe, roedd ein darn yn darlunio a symboleiddio agweddau o'i bywyd o 1926 yn 19 oed hyd at ei marwolaeth annhymig yn 1954 yn 47 oed. Roedd ei hunan-bortreadau yn creu hunangofiant gweledol o'i bywyd, ei chariad at ei gŵr Diego, ei phoen a'i safbwyntiau gwleidyddol. Cynrychiolwyd Frida gan bedwar dawnsiwr ar wahanol gyfnodau yn ystod ei bywyd, a chefais i fy newis i gynrychioli ei bywyd yn y cyfnod yn arwain at ei marwolaeth. Yn ffodus roedd ein holl waith caled yn werth chweil gan fod y noson yn llwyddiant ysgubol a mwynhawyd gan lawer gan gynnwys Miss Cole sy'n gefnogwr ffyddlon i CYDC a'r rheswm pam fod Sienna a minnau'n rhan o deulu CYDC.

Dyddiau dawns yw ein perfformiad nesaf ar yr 8fed a'r 9fed o Orffennaf yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Mae'n ŵyl awyr agored rhad ac am ddim lle bydd gwahanol grwpiau dawns yn ymddangos ar draws Abertawe ac yn perfformio. Mae'r ŵyl yn canolbwyntio ar amlygu pwysigrwydd dawns a'r dalent a'r cyfleoedd sydd gennym yma yn Abertawe. Byddai'n hyfryd gweld rhai ohonoch chi yno yn gwylio!!

Barn...

## DIOLCH I DR DAI LLOYD

-DAFYDD WILLIAMS

Daeth tyrfa fawr ynghyd yng ngwesty'r Norton, y Mwmbwls yn ddiweddar i ddiolch i'r Dr Dai Lloyd am ei flynyddoedd o wasanaeth yn Gynghorydd ac yna'n Aelod Senedd Cymru.

Cafwyd araith ysbrydoledig gan Lywydd Senedd Cymru, Elin Jones, a gafodd ei magu ar fferm gyfagos i Dai yng Ngheredigion a nifer o gyfraniadau cofiadwy, yn ogystal â bwyd da!

Yn y llun: Elin Jones, Luke Fletcher AS, Dai Lloyd, Sioned Williams AS ac Anwen, merch Dai. Trefnwyd yr achlysur gan Blaid Cymru.





## CANTORION IMPERIAL ABERTAWE
-HEINI GRUFFUDD

Mae perl o lyfr wedi'i gyhoeddi ar hanes Cantorion Imperial Abertawe, côr meibion bychan oedd yn ei fri yn ail hanner 30au'r 20fed ganrif, ac yna yn ystod y 50au.

Geoff Rees, mab Ivor Rees, un o brif gantorion y côr, ac Olive Rees, y cyfeilydd, yw prif awdur y llyfr a'r cyhoeddwr.

Cychwynnodd y côr yn dilyn llwyddiant eithriadol y Welsh Imperial Singers yn y 20au a'r 30au. Festyn Davies o Drawsfynydd oedd ysgogwr ac arweinydd y côr yma. Teithiodd bedair gwaith i'r Unol Daleithiau, a chanu mewn cannoedd o gyngherddau, a rhai teithiau'n para deg mis. Roedd yn gôr proffesiynol i bob pwrpas, a'i nod oedd cyflwyno canu gorau Cymru i'r byd. Roedd ei boblogrwydd yn rhyfeddol.

Un o aelodau'r côr hwn oedd Jack Newbery. Daeth ar draws y côr yn ystod eisteddfod genedlaethol Abertawe 1926, a daeth yn un o unwadwyr gorau'r côr.

Ond ar ôl priodi, a phrynu tŷ yn Bath Road, Treforys, penderfynodd roi'r gorau i'r côr ac yna ar ôl tipyn gychwyn ei gôr ei hun.

Sefydlwyd Wythawd Imperial Abertawe yn 1938, yn gôr bychan o wyth. Yr aelodau oedd Ivor Rees, Ben Davies, George Owen, Jack Newbury, Tal Griffiths, Emlyn Morgan a Cecil Rees, gydag Olive Rees yn cyfeilio. Daethant yn boblogaidd yn gyflym, ond daeth y rhyfel i dorri ar draws eu rhaglen. Aethant ati i ailafael ar ôl y rhyfel ac ehangu nifer y cantorion i ryw bymtheg a sefydlu Cantorion Imperial Abertawe- the Swansea Imperial Singers. Roedd llawer yn gweithio yng ngwaith Imperial ICI yng Nglandŵr.

Cyn bo hir dechreuon nhw ddarlledu. Cymorth mawr iddyn nhw oedd y cynhyrchydd radio Cymraeg, John Griffiths, yn wreiddiol o Gelligaer, ond oedd yn byw yn awr yn Eaton Crescent, yr Uplands.

Roedd John Griffiths yn ddramodydd a chynhyrchydd, a byddai'n gyfrifol am raglenni yn cynnwys Dylan Thomas a ddarlledai o'r Grove, y Llannerch, yn yr Uplands, cyn mynd i ddefnyddio stiwdio'r BBC yn Heol Alexandra.

Yn y ddau le yma roedd John Griffiths yn gyfrifol am raglenni radio poblogaidd Cymraeg, gan gynnwys cyfresi Teulu Tŷ Coch a Theulu'r Mans.

Bydd nifer o ddarllenwyr Wilia'n nabod ei blant, Margaret, Non, Ann a David, oedd yn ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Lôn-las.

Roedd John Griffiths hefyd yn gyfrifol am raglen adloniant ysgafn Sut Hwyl? A chafodd Gantorion Imperial Abertawe i ganu ar y rhaglen hon.Sut Hwyl oedd y rhaglen gyntaf i'w darlledu o stiwdio newydd y BBC.

Recordiodd y côr nifer o ganeuon Cymraeg i gwmni Decca, gan gynnwys Dafydd y Garreg Wen, Bryn Calfaria, O mor bêr, Dacw nghriad i lawr yn y berllan, Llwyn Onn, Ar hyd y nos a Bendithia'r tŷ.

Erbyn diwedd y 50 fe wnaeth y côr ddirwyn i ben, ond yn ystod ei gyfnod aur canodd mewn ugeiniau o gyngherddau, a mynd ar deithiau.

Mae llyfr Geoff Rees yn cynnwys nifer mawr o luniau o'r côr a llawer o luniau cefndirol o Abertawe cyn y rhyfel ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd.




Barn...

## TABERNACL TREFORUS
-HEINI GRUFFUDD

Roedd 2022 yn nodi can mlynedd a hanner ers agor capel annibynnol y Tabernacl yn Nhreforys. Manteisiodd Mike Hedges AS ar y cyfle yn y Senedd i longyfarch y Tabernacl a dymuno'r gorau iddynt i'r dyfodol.

Cynlluniwyd gan y pensaer John Humphrey a'i adeiladu ar gost o un mil ar bymtheg o bunnoedd yn 1872 sy'n cyfateb i dros filiwn heddiw. Roedd gan y capel seddi dros 2 fil sydd wedi gostwng heddiw i lai na mil ar ôl cael gwared ar y seddi mainc a'r cynnydd yn uchder a maint pobl dros y 150 mlynedd diwethaf.

Cyn hynny, roedd yn gartref i gôr byd-enwog Orpheus Treforys ac erbyn hyn mae'n cynnal cyngherddau yn rheolaidd ar gyfer côr Merched Treforys, côr Clwb Rygbi Treforys a chôr y Tabernacl.

Fe'i hadeiladwyd i gymryd lle Libanus oherwydd bod hynny wedi mynd yn rhy fach ar gyfer nifer y mynychwyr rheolaidd. Cafodd y dyluniad ei gopïo sawl gwaith mewn mannau eraill yng Nghymru.

Roedd 2022 yn nodi can mlynedd a hanner ers agor capel annibynnol y Tabernacl yn Nhreforys. Manteisiodd Mike Hedges AS ar y cyfle yn y Senedd i longyfarch y Tabernacl a dymuno'r gorau iddynt i'r dyfodol. Cynlluniwyd gan y pensaer John Humphrey a'i adeiladu ar gost o un mil ar bymtheg o bunnoedd yn 1872 sy'n cyfateb i dros filiwn heddiw. Roedd gan y capel seddi dros 2 fil sydd wedi gostwng heddiw i lai na mil ar ôl cael gwared ar y seddi mainc a'r cynnydd yn uchder a maint pobl dros y 150 mlynedd diwethaf. Cyn hynny, roedd yn gartref i gôr byd-enwog Orpheus Treforys ac erbyn hyn mae'n cynnal cyngherddau yn rheolaidd ar gyfer côr Merched Treforys, côr Clwb Rygbi Treforys a chôr y Tabernacl. Fe'i hadeiladwyd i gymryd lle Libanus oherwydd bod hynny wedi mynd yn rhy fach ar gyfer nifer y mynychwyr rheolaidd. Cafodd y dyluniad ei gopïo sawl gwaith mewn mannau eraill yng Nghymru.

## GIG NAWR YN NHŶ TAWE


Pleser croesawu NAWR i Tŷ Tawe eto wythnos ddiwethaf ar gyfer sioe arbennig gyda Infinity Knives x Brian Ennals & Hap a Damwain!

Lluniau - Stay.Focused.Photography



## CLWB DARLLEN MAI

Bydd cyfarfod nesaf y Clwb Darllen ar ddydd Llun Mai 16eg. Llyfr y mis yw 'Llyfr y Flwyddyn' gan Mari Emlyn, ar gael ar ostyngiad o 10% yn Siop Tŷ Tawe.




## CLWB CERDDORIAETH

Mae ein Clwb Cerddorieth ar y cyd gydag Urdd Gorllewin Morgannwg wedi dychwelyd gyda chyfres newydd o sesiynau cyffrous a diddorol i chi!
Nos Fercher, 17:30-18:30, AM DDIM!




## DEWCH I GANU

Croeso cynnes i chi ymuno â'r cerddor Delyth Jenkins i ddysgu Cymraeg trwy ganu.
A warm welcome to join musician Delyth Jenkins and learn Welsh through song in a fun and informal way.
Sad | Sat, 20.5
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau - National Waterfront Museum




## BORE COFFI

Cyfle gwych i ymarfer dy Gymraeg gyda ni yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe!
A great opportunity to practise your Welsh with us in the Environment Centre, Swansea! Every third Tuesday of the month!
Bore coffi nesaf:
20/05/23
10:30-11:30am













Chwith: Dyma rhai o'r artistiaid bydd yn perfformio yng Ngŵyl Tawe eleni!
10fed o Fehefin - cofiwch y dyddiad!

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Mai erbyn Mai 17eg trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

05.05 - The Night School + Eraill (Elysium Gallery)
07.05 - Melin Melyn (Bunkhouse)
10.06 - Gŵyl Tawe (Amgueddfa'r Glannau)

Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

